# DINASYDDION YR UE YMGEISIO I'R CYNLLUN PRESWYLIO'N SEFYDLOG I DDINASYDDION YR UE (EU SETTLEMENT SCHEME)

Llywodraeth EM

**Os ydych chi'n ddinesydd yr UE[1], gallwch chi ac aelodau eich teulu ymgeisio i Gynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE (EU Settlement Scheme) i barhau i fyw, gweithio ac astudio yn y Deyrnas Unedig.**

I ymgeisio, bydd angen i chi fod yn ddinesydd yr UE neu'n rhywun nad yw'n ddinesydd o'r UE sy'n aelod o deulu dinesydd yr UE. Mae hyn yn cynnwys rhai gyda dogfen breswylio barhaol (permanent residence) y Deyrnas Unedig.

Nid oes angen i chi ymgeisio os oes gennych chi ganiatâd amhenodol i aros (indefinite leave to remain) a'ch bod yn ddinesydd Iwerddon, ond fe allwch os ydych chi eisiau.

Mae'r broses ymgeisio yn gwirio tair egwyddor sylfaenol: **hunaniaeth**, **preswylio yn y Deyrnas Unedig** a **throseddoldeb**. Mae cefnogaeth ar gael os oes angen.

Gallwch ymgeisio i'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE (EU Settlement Scheme) o 30 Mawrth 2019.

Am ragor o wybodaeth, ewch i **gov.uk/eu-settled-status**.

1 Defnyddir dinasyddion yr UE drwyddo draw i gyfeirio at ddinasyddion yr AEE a'r Swistir, sydd oll yn gymwys i ymgeisio i Gynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE (EU Settlement Scheme).